# <u>PWYLLGOR CYNLLUNIO</u>
# <u>DYDD MERCHER, 2 RHAGFYR 2020</u>

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Mercher, 2 Rhagfyr 2020

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Chris Bithell, Derek Butler, Ian Dunbar, Veronica Gay, Gladys Healey, Patrick Heesom, Kevin Hughes, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

**<u>HEFYD YN BRESENNOL:</u>** Cynghorwyr: Marion Bateman, Adele Davies-Cooke, Dave Hughes, Ian Roberts ac Aaron Shotton (fel arsyllwyr)

**<u>HEFYD YN BRESENNOL:</u>**
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth - Strategaeth; Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol; Swyddogion Cynllunio; Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygu Priffyrdd; a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

Cyn dechrau'r cyfarfod, cydymdeimlodd y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor gyda'r Cynghorydd Kevin Hughes yn dilyn colled drist aelod agos o'i deulu.

## 7. <u>DATGAN CYSYLLTIAD</u>

Roedd y Cynghorydd Neville Phillips yn datgan cysylltiad personol sy'n rhagfarnu ag eitem 6.1 ar y rhaglen (061572) gan fod aelod o'r teulu yn berchen ar eiddo cyfagos.

Datganodd y Cynghorydd Mike Peers gysylltiad personol sy'n rhagfarnu ag eitem 6.1 (061572) ar y rhaglen, oherwydd bod aelod o'r teulu wedi'i gyflogi gan Clwyd Alyn (yr ymgeisydd ar y cyd).

Roedd yr Aelodau canlynol yn datgan bod naill ai'r ymgeisydd, asiant neu'r gwrthwynebwyr wedi cysylltu â nhw dair gwaith neu fwy ar eitem 6.2 (059396) ar y rhaglen:
Cynghorwyr: Bernie Attridge, Ian Dunbar, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Paul Johnson, Richard Lloyd, Mike Peers, Owen Thomas, a David Wisinger (Cadeirydd).

Datganodd y Cynghorydd Mike Peers gysylltiad personol a oedd yn rhagfarnu ag eitem 6.4 (061720) ar y rhaglen gan ei fod yn berchennog yr eiddo. Dywedodd y Cynghorydd Peers fod y Pwyllgor Safonau wedi caniatáu goddefeb iddo ar 30 Tachwedd 2020, i ysgrifennu'n uniongyrchol at swyddogion a'r Pwyllgor Cynllunio ynglŷn â'i gais.

8. **SYLWADAU HWYR**

Eglurodd y Cadeirydd fod y sylwadau hwyr wedi cael eu dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor cyn y cyfarfod, ac atodwyd copi ohonynt i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

9. **COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2020 yn gofnod cywir, ar ôl i'r Cynghorydd Chris Bithell eu cynnig a'r Cynghorydd Ian Dunbar eu heilio.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

10. **EITEMAU I'W GOHIRIO**

Nid oedd dim eitemau wedi'u hargymell i'w gohirio.

11. **ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel y'i cyflwynwyd ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio a oedd ynghlwm fel atodiad.

12. **AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Roedd yna un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 3.32 pm)

…………………………………………
**Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gwe-ddarlledu a gellir eu gwylio drwy fynd i'n llyfrgell o we-ddarllediadau ar: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 2 RHAGFYR 2020**

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 061572 | Cyngor Cymuned Argoed | Cais llawn – Datblygiad 56 annedd, yn cynnwys ffordd newydd, ardaloedd parcio, tirlunio a chysylltiadau draeniau, yn cynnwys ffurfio pant ar dir datblygu yng nghefn 66A Mold Road, Mynydd Isa. | Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Hilary McGuill, i'r adroddiad yn y rhaglen.<br><br>Datganiad o wrthwynebiad gan y Cyngor Cymuned Lleol ynghlwm i'r adroddiad yn y rhaglen.<br><br>Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan breswylydd lleol i'r adroddiad yn y rhaglen.<br><br>Atodwyd datganiad o gefnogaeth gan yr asiant i'r cais i'r adroddiad yn y rhaglen.<br><br>Atodwyd datganiad o gefnogaeth gan breswylwyr lleol i'r adroddiad yn y rhaglen. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i'r cais yn rhan o Rwymedigaeth Adran 106 i ddarparu'r canlynol:<br><br>• cyfrifoldeb i sicrhau bod yr anheddau fforddiadwy, yn y deiliadaethau a nodwyd gan y dogfennau a gymeradwywyd yn parhau'n fforddiadwy am byth;<br>• Cyfraniadau ysgol Cynradd ac Uwchradd yn unol â NCCA 23 – Cyfraniadau Datblygwr i Addysg;<br>• Symiau cymudo Man Agored Cyhoeddus o £733.00 fesul annedd, yn gyfnewid am ddarpariaeth ar y safle;<br><br>a'r amodau o fewn yr adroddiad, yn unol ag argymhellion y swyddog. |

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 059396 | Cyngor Cymuned Gwernymynydd | Cais Llawn – Adeiladu 80 annedd, siop gyfleustra a datblygiad cysylltiedig yn Coppy Farm, Ffordd Cilcain, Gwernaffield. | Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Adele Davies-Cooke, i'r adroddiad yn y rhaglen.<br><br>Datganiad o wrthwynebiad gan y Cyngor Cymuned Lleol ynghlwm i'r adroddiad yn y rhaglen.<br><br>Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan Grŵp Preswylwyr Lleol i'r adroddiad yn y rhaglen.<br><br>Atodwyd datganiad o gefnogaeth gan yr asiant i'r cais i'r adroddiad yn y rhaglen.<br><br>Atodwyd datganiad o gefnogaeth gan y preswylydd lleol i'r cais i'r adroddiad yn y rhaglen. | Bod y caniatâd cynllunio yn cael ei wrthod yn unol ag argymhellion y swyddog,<br><br>am y rhesymau fel y nodwyd yn yr adroddiad ac yn ddarostyngedig i'r newid canlynol i baragraff 2.01, rheswm 1: y geiriad "ffin setliad Yr Wyddgrug" i ddarllen "ffin setliad Gwernarffield." |

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | Materion Cyffredinol – newid arfaethedig i Gytundeb Adran 106 – Datblygiad Preswyl yng Nghroes Atti, Y Fflint | | Bod Cytundeb Adran 106 sy'n ymwneud â'r Tir yn cael ei amrywio i gynnwys:<br><br>• cynnydd yn y tir sy'n cynnwys Safle'r Ysgol o 0.6ha i 1.05ha a gofyn i'r tir gael ei drosglwyddo i'r Cyngor;<br>• tynnu'r gofyniad i gadw 0.45ha o'r tir i'w ddefnyddio fel Canolfan Iechyd;<br>• cynyddu tir estyniad ysgol o 1.00ha i 1.45ha;<br>• ymestyn y dyddiad gofynnol ar gyfer dechrau ar ddatblygu'r ysgol ar safle'r ysgol i 10 mlynedd o'r dyddiad cytundeb amrywiol. |
| 061720 | Cyngor Tref Bwcle | Materion Cyffredinol – Cais Llawn – ystafell haul ac estyniad ar garej gydag estyniad ystafell wely uwchben yn 7 Pinewood Road, Drury | | Bod caniatâd cynllunio yn cydymffurfio â'r cynllun datblygu ac ni fyddai unrhyw ystyriaethau sylweddol eraill wedi arwain at y caniatâd cynllunio yn cael ei wrthod gan y Pwyllgor, ac felly ni ddylid dirymu'r caniatâd cynllunio. |